



**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 28 Tachwedd 2018 am 5.00 pm
ym Siambr Y Cyngor, Cwm Clydach, Cf40 2xx.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cyngorydd H Boggis	Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd S Bradwick	Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Calvert	Y Cyngorydd C Willis
Y Cyngorydd A Crimmings	Y Cyngorydd D Williams
Y Cyngorydd G Davies	Y Cyngorydd S Pickering
Y Cyngorydd L De Vet	Y Cyngorydd S Rees
Y Cyngorydd J Elliott	Y Cyngorydd S Evans
Y Cyngorydd S. Rees-Owen	Y Cyngorydd M Forey
Y Cyngorydd A Fox	Y Cyngorydd M Norris
Y Cyngorydd M Webber	Y Cyngorydd M Griffiths
Y Cyngorydd A Roberts	Y Cyngorydd M Weaver
Y Cyngorydd G Holmes	Y Cyngorydd L Walker
Y Cyngorydd G Hopkins	Y Cyngorydd P Howe
Y Cyngorydd R Yeo	Y Cyngorydd J James
Y Cyngorydd P Jarman	Y Cyngorydd R Turner
Y Cyngorydd G Thomas	Y Cyngorydd A Morgan
Y Cyngorydd M Adams	Y Cyngorydd J Rosser
Y Cyngorydd R Smith	Y Cyngorydd G Stacey
Y Cyngorydd R Lewis	Y Cyngorydd C Leyshon
Y Cyngorydd J Brencher	Y Cyngorydd S Powell
Y Cyngorydd Owen-Jones	Y Cyngorydd W Owen
Y Cyngorydd S Morgans	Y Cyngorydd D Macey
Y Cyngorydd E Stephens	Y Cyngorydd W Lewis
Y Cyngorydd G Jones	Y Cyngorydd W Treeby
Y Cyngorydd G Hughes	Y Cyngorydd K Jones
Y Cyngorydd W Jones	Y Cyngorydd L Jones
Y Cyngorydd L Hooper	Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd E George	Y Cyngorydd H Fychan
Y Cyngorydd M Fidler-Jones	Y Cyngorydd M Diamond
Y Cyngorydd J Williams	Y Cyngorydd G Williams
Councillor J Davies	Y Cyngorydd J Cullwick
Y Cyngorydd A Cox	Y Cyngorydd A Chapman
Y Cyngorydd G Caple	

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.

Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau
Llywodraethol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol

77 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Tegg, T Williams, J Harries, A Davies-Jones, K Morgan, S M Evans, E Webster, M Powell a S Belzak.

78 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

- Datganodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol E Stephens fuddiant personol - Eitem Adroddiad Hwyr "Rwy'n gweithio i ASE ac felly rwyf wedi fy nghyflogi gan Senedd Ewrop ."
- Cyfeiriodd y Cyngorydd P Jarman at y gollyngiad a gafodd hi gan y Pwyllgor Safonau ar 23 Tachwedd 2018. "I siarad ac i bleidleisio ar bob mater tra bod proses pennu Cyllideb 2019-2020 yn mynd rhagddi ac yn cael ei mabwysiadu, a hynny fel Arweinydd yr Wrthblaid."

79 CYHOEDDIADAU

- Rhoddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S Morgans ddeiseb i'r Maer ar ran y Cyngorydd J Harries (nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod), mewn perthynas â chais gan Aelodau lleol i dorri coed.
- Dywedodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S Pickering wrth yr Aelodau am 'Her Goroesi'r Arctig' y mae hi'n bwriadu cymryd rhan ynddi. Bydd hi'n wynebu oerfel Gogledd Sweden, sydd 150km i'r de o'r Cylch Arctig, ar ran y Lleng Brydeinig Frenhinol. Darparwyd manylion nawdd.
- Llongyfarchodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G Davies dîm rygbi Cymru am ei berfformiad diweddar yn ystod gemau rhyngwladol tymor yr hydref, a wnaeth roi'r tîm yn y 3^{ydd} safle yn y byd rygbi. Cyfeiriodd y Cyngorydd Davies at y chwaraewr rygbi Tomos Williams, cynddisgybl Ysgol Gyfun Treorci, Cwm Rhondda, a oedd yn llawn ysbrydoliaeth yn y gemau. Nodwyd y byddai llythyr a gwahoddiad i ddod i'r Parlwr yn cael ei anfon at Mr Williams fel cydnabyddiaeth swyddogol o'i lwyddiant.

80 COFNODION

PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar **dydd Mercher, 24ain Hydref, 2018**, yn rhai cywir.

81 Datganiadau

Datganiad gan Arweinydd y Cyngor mewn perthynas ag Adolygu Strwythur Uwch Reolwyr y Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd wrth yr Aelodau am y cyfle diweddar a ddygwyd ymlaen i adolygu'r strwythur Uwch Reolwyr yr Awdurdod, gan roi gwybod am adroddiad a gaiff ei gyflwyno i gyfarfod y Cabinet ym mis Rhagfyr. Ychwanegodd y byddai'r adroddiad yn cyflwyno gostyngiad yn nifer y swyddi uwch swyddogion, gan arwain at arbediad posibl o £400,000. Ychwanegodd ei bod hi'n briodol bod yr Awdurdod yn adolygu'r strwythur yn dilyn y gostyngiad yn y lefelau staffio a welwyd. Daeth yr Arweinydd i'r casgliad y byddai'r arbedion rhagamcanol yn helpu'r gyllideb wrth edrych i'r dyfodol.

Datganiad gan Ddirprwy Arweinydd y Cyngor - Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd i bob Aelod ymuno â hi i longyfarch staff Carfan Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant yr Uned Adnoddau Dynol, sy'n cydlynu'r rhaglen Prentisiaethau a Graddedigion ar gyfer Cyngor Rhondda Cynon Taf, gan ddweud bod y garfan wedi helpu'r Cyngor i ennill gwobr Cyflogwr Mawr a Macro'r Flwyddyn yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymru 2018. Aeth y Dirprwy Arweinydd ymlaen i ddweud mai'r Cyngor oedd yr unig Awdurdod yng Nghymru i ennill dyfarniad o'r fath, a dywedodd hi fod hyn o ganlyniad i waith caled ac ymroddiad y garfan sy'n gweithio'n ddiflino i gefnogi prentisiaid a graddedigion y Cyngor. Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd fod y wobr yn dangos bod y Cyngor yn lle ardderchog i bobl ddysgu a datblygu mewn sefydliad dynamig sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, gyda'r posibilrwydd o gael swyddi parhaol ar ôl cwblhau eu rhaglen hyfforddi ddwy flynedd.

Datganiad gan yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet i'r Aelodau fod Taith Pyllau Glo Cymru wedi ennill gwobr Lleoliad Teulu'r Flwyddyn yng Ngwobrau Lletygarwch Cymru. Dywedodd hi fod y Wobr yn cydnabod lleoliadau ac atyniadau yng Nghymru a oedd yn sefyll allan uwchlaw'r gweddill am eu hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf a'r argraffiadau cadarnhaol y maen nhw'n eu gadael ar ymwelwyr. Ychwanegodd hi fod ennill y wobr yma, yn dilyn enwebiad gan y cyhoedd, yn dystiolaeth o waith caled ac ymroddiad y staff yn Nhaith Pyllau Glo Cymru.

Aeth yr Aelod Cabinet ymlaen i drafod yr angen i ddarparu cefnogaeth barhaus i atyniadau'r Cyngor i ymwelwyr, gan nodi fod £750,000 eisoes wedi'i fuddsoddi er mwyn gwella'r arlwy i ymwelwyr yn Nhaith Pyllau Glo

Cymru, a hynny drwy raglen gyfalaf y Cyngor a ffynonellau cyllid eraill. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o 50% yn nifer yr ymwelwyr.

82 Cwestiynau gan y Cyngorwyr

1. Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S Pickering i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings)

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet roi diweddariad ar fuddsoddiad sylweddol y Cyngor yn ein manau chwarae?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:

Dyweddodd yr Aelod o'r Cabinet fod 97 o fannau chwarae wedi cael budd o fuddsoddiad gwerth mwy na £3.2 miliwn ers i'r rhaglen gael ei sefydlu yn 2015. Nododd hi fod Chwaraeon Cymru wedi dweud yn y gorffennol bod y buddsoddiad yn golygu bod mwy na hanner cyfanswm y gwelliannau ledled Cymru gyfan wedi'i gyflawni yn Rhondda Cynon Taf

Dyweddodd yr Aelod o'r Cabinet wrth yr Aelodau fod disgwyl i 27 o brosiectau buddsoddi mewn ardaloedd chwarae gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2011. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am y buddsoddiad yn y ddwy ardal chwarae yn Ynys-y-bŵl.

Doedd gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S Pickering ddim cwestiynau dilynol i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth.

2. Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"A wnewch chi ddatganiad am y problemau sydd wedi codi ar gyffordd newydd yr A4059 yn y Drenewydd, Aberpennar?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Nododd yr Arweinydd ei fod e'n effro i'r pryderon sydd wedi codi mewn perthynas â'r drefn newydd ar y gyffordd. Dywedodd e fod hyn o ganlyniad i yrwyr sy'n ymddwyn yn ymosodol neu'n goddiweddyd mewn modd peryglus. Dywedodd e fod archwiliad diogelwch dau gam yn cael ei gynnal wrth gynllunio prosiectau priffyrdd ar raddfa fawr, a chaiff archwiliad RSA3 ei gynnal hefyd unwaith y bydd cynllun newydd yn agor i yrwyr. Ychwanegodd e fod y cynllun yma'n cael ei gynnal yn annibynnol ar y Cyngor, a hynny gan arbenigwyr diogelwch y ffyrdd achrededig a heddlu traffig. Gwnaeth yr Arweinydd sylw am y nifer fach o achosion o yrru gwael sydd wedi'u gweld ledled yr

Awdurdod ac sy'n peri pryder. Ychwanegodd e fod arwyddion wedi'u gosod wrth y gyffordd dan sylw er mwyn nodi bod angen i gerbydau uno. Serch hynny, dywedodd ei fod e wedi gofyn am osod rhagor o arwyddion yno. Soniodd e am yr angen i weithio gyda'r Heddlu er mwyn edrych ar gymryd camau gorfodi yn erbyn y rheiny sy'n gyrru'n wael ac yn peri gofid. I gloi, dywedodd e y byddai'r ffordd mae'r gyffordd newydd yn gweithio yn newid unwaith y bydd y cynllun ar waith yn llawn yn nhymor y gaeaf 2019/20. Bydd hyn yn golygu bod y lonydd yn cael eu defnyddio mewn modd mwy cyfartal, gan gael gwared ar y problemau sydd wedi'u nodi mewn modd naturiol.

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol P.Jarman:

Gwnaeth y Cyngorydd Jarman sylwadau am y ffaith fod yr Arweinydd yn effro i'r pryderon a'r feirniadaeth o gynllun y gyffordd, sy'n achosi modurwyr i gyflymu i dros 30mya, yn ogystal â phrinder trefniadau dwy lôn sy'n arwain at nifer o sefyllfaoedd lle mae damweiniau bron â digwydd, gyda modurwyr yn gyrru yn gyflym tuag at y groesfan i gerddwyr er gwaethaf yr arwyddion ychwanegol a chasgliadau'r adroddiad archwilio diogelwch. Gwnaeth y Cyngorydd Jarman sylwadau ynglŷn ag effaith y ffordd ar drigolion lleol, gyda gyrwyr yn canu eu cyrn yn ormodol. Gofynnodd y Cyngorydd a oedd yr Arweinydd yn dal i fod yn fodlon bod y gyffordd yn ddiogel i'r cyhoedd neu a oedd gwaith pellach wedi'i argymhell?

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan

Dywedodd yr Arweinydd nad oedd y cynllun ffordd yn anniogel ond, yn hytrach, mai nifer fach o fodurwyr a'r ffordd maen nhw'n gyrru sy'n peri i'r ffordd i fod yn anniogel. Ychwanegodd pe byddai'r modurwyr yn dilyn Rheolau'r Ffordd Fawr ac yn dilyn yr arwyddion mewn perthynas ag uno lonydd, ni fyddai unrhyw broblemau'n codi. Aeth yr Arweinydd ymlaen i sôn am nifer o gynlluniau cyffyrdd tebyg ledled y Fwrdeistref Sirol. Ailadroddodd fod angen rhagor o arwyddion a gwaith codi ymwybyddiaeth ac ailadroddodd ei sylwadau mewn perthynas â'r angen i orfodi'r gyfraith ar gyfer goryrru a gyrru heb dalu digon o sylw.

3. Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Fox i Arweinydd y Cyngor - Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"A wnewch chi roi diweddariad ar y cynnydd sy wedi'i wneud tuag at gyflawni'r ymrwymadau cyhoeddus craidd a gafodd eu gwneud y llynedd?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan:

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n mynd i'r afael â rhai o fanylion y

cwestiwn yma yn ystod y 'Dadl Flynyddol yr Arweinydd' i osgoi unrhyw ailadrodd ac aeth ymlaen i gyfeirio at y buddsoddiad cynyddol mewn ysgolion mewn perthynas â phrosiectau adeiladu ysgolion, yn ogystal â'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer cyllideb yr ysgolion (£2 miliwn ar gyfer 2018/19) er, ychwanegodd ei fod yn ymwybodol nad oedd yr arian hwn yn mynd i'r afael â'r pwysau ariannol sy'n wynebu ysgolion.

Cyfeiriodd yr arweinydd at y buddsoddiadau mewn priffyrdd, gan ddweud bod Awdurdodau eraill yn edrych ar doriadau yn y meysydd, lle mae Rhondda Cynon Taf yn edrych ar fuddsoddi a chynnal a chadw. Cyfeiriodd at y £23.5 miliwn a gytunwyd er mwyn cynnal rhwydweithiau ffyrdd dros y 3 blynedd nesaf.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y buddsoddiad a wnaed yng Nghanolffannau Hamdden y Cyngor. Mae'r offer diweddaraf sydd i'w gweld yno a'r cynnydd yn nifer defnyddwyr y canolfannau yn profi hyn. Achubodd yr Arweinydd ar y cyfle i drafod y strategaeth Gofal Ychwanegol a'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar safle Maes-y-Ffynnon. I gloi ei ymateb, gwnaeth yr Arweinydd sylwadau am y cyfleoedd am swyddi o fewn y Cyngor a'r gwobrau a ddyfarnwyd mewn perthynas â'r cynlluniau graddedigion a phrentisiaid, yn ogystal â'r cynnig gofal plant am ddim sy'n cael ei gyflwyno ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Nid oedd gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A Fox gwestiwn atodol i Arweinydd y Cyngor.

4. Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg - Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins:

"Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i baratoi ar gyfer pwysau'r gaeaf a fydd yn cael effaith ar ein gwasanaethau cymdeithasol yn fuan?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins

Gwnaeth yr Aelod Cabinet sylwadau am Gynllun Gaeaf y Cyngor, a gafodd ei lunio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Prifysgol, sy'n nodi dulliau gweithredu ar y cyd o ran rheoli achosion o dderbyn cleifion a rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Gwnaeth yr Aelod Cabinet sylwadau am y gwaith cadarnhaol a gafodd ei gyflawni yn y gorffennol drwy roi dulliau gweithredu ar y cyd ar waith. Achubodd yr Aelod Cabinet ar y cyfle i gofnodi ei ddiolch am waith y staff yn ystod y tywydd garw, wrth iddyn nhw barhau i ddiwallu anghenion y rheiny sydd fwyaf agored i niwed. Gwnaeth yr Aelod Cabinet sylwadau ar y gwersi a ddysgwyd o flynyddoedd blaenorol gan ychwanegu bod yr Awdurdod ar 'Orchymyn Aur' am 10 wythnos. Ychwanegodd y byddai'n sicrhau bod hyd yn oed rhagor o ganolbwyntio ar drefniadau cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Gwnaeth yr Aelod Cabinet sylwadau ar y Gwasanaeth Cadw'n Iach

Gartref newydd, sydd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty a helpu pobl i fynd adref o'r ysbyty cyn gynted ag y bo modd, gan alluogi pobl i dderbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain . Gwnaeth yr Aelod Cabinet hefyd sylwadau am gyflwyno brechiadau ffliw i staff y Cyngor a'r Aelodau. Dywedodd fod y pwysau ar y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yn amlwg ar draws y flwyddyn.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Bonetto i'r Aelod Cabinet.

5. Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J. James i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D. R. Bevan)

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai ddatganiad am bwysigrwydd Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn y Fwrdeistref Sirol."

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R Bevan:

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn ddynodiadau Cynllun Datblygu Lleol anstatudol, sy'n chwarae rhan bwysig o ran diogelu tirwedd o fewn y system cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Ychwanegodd fod ardaloedd o'r fath yn cydfynd â dynodiadau tirwedd cenedlaethol statudol fel Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Ychwanegodd fod Ardal Gwarchodaeth Arbennig wedi cael ei dynodi i ddiogelu ardaloedd lle mae tirwedd o ansawdd arbennig yn Rhondda Cynon Taf, gan ychwanegu bod gan y Cyngor bolisiau Ardal Tirwedd Arbennig tebyg, ardal-benodol, ar gyfer ardal Strategaeth y Gogledd a'r De yn y Cynllun Datblygu Lleol. Aeth yr Aelod Cabinet ymlaen i gynghori bod angen i'r datblygiad o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig gydymffurfio â'r safonau uchaf o ran dylunio, gosod a defnyddio deunyddiau sy'n briodol i'r cymeriad fel y nodir ym mholisiau'r Cyngor.

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. James

Gwnaeth y Cynghorydd James sylwadau ar Ardaloedd Tirwedd Arbennig sy'n diogelu tirwedd unigryw, gan ychwanegu bod cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu wedi cytuno ar gais am ddatblygiad preswyl o fewn ward y Cynghorwyr (nad oedd ar y cynllun) ond mae cynefinoedd unigryw o fewn ardal y datblygiad arfaethedig. Gofynnodd y Cynghorydd am sicrwydd y byddai'r ardal yn cael ei diogelu dan y Cynllun Datblygu Lleol.

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R Bevan:

Dechreuodd yr Aelod Cabinet trwy ddweud ei fod yn ymateb yn ofalus, a hynny am fod y cais dan sylw eto i'w gadarnhau yn gais cynllunio llawn. Mae hyn ei fod yn dal i yn rhan o'r broses cyn gwneud cais ac yn destun ymgynghoriad â'r cyhoedd. Aeth yr Aelod Cabinet

ymlaen i ychwanegu bod y penderfyniad a wnaed gan y pwyllgor Cynllunio a Datblygu y tu allan i faes polisi'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer datblygu tai, gan ychwanegu bod y penderfyniad yn destun atgyfeiriad i Lywodraeth Cymru am y rheswm hwnnw.

Gwnaeth yr Aelod Cabinet sylwadau am yr ardal arwyddocaol o Ardal Tirwedd Arbennig i'r de a'r dwyrain o Efail Isaf, sydd yn gyfan gwbl y tu allan i ffin yr anheddiad a'r ardaloedd sy'n agored i ddatblygiad oherwydd ffordd osgoi Pentre'r Eglwys. Ychwanegodd hefyd fod angen i'r Cyngor fod yn ymwybodol o Tan 1 a'r cyflenwad tai 5 mlynedd, gan ddweud bod y Cyngor yn barnu pob cais yn ôl ei rinweddau ac mai swyddogion su'n penderfynu a yw cais yn cael ei argymhell i'w gymeradwyo neu ei wrthod.

83 TRAFODAETH AR SEFYLLFA'R FWRDEISTREF SIROL

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 13.2 y Cyngor, nododd y Maer yr hoffai wahodd yr Arweinydd i gyfarch y Cyngor, wedyn byddai'n ymateb i sylwadau Aelodau ar ei Adroddiad Blynyddol.

Dechreuodd yr Arweinydd ei gyfarchiad drwy nodi mai dyma gyfle i ddangos rhai o'r pethau mae'r Cyngor wedi'u cyflawni dros y 12 mis diwethaf a'r meysydd yr hoffai eu symud yn eu blaenau i'w hystyried mewn perthynas â phrosiectau buddsoddi a thrawsffurfio. Nododd yr angen i sicrhau cynaladwyedd gan fod y Cyngor mewn mesurau caledi, gan gyfeirio at y setliad llywodraeth leol a'r arbedion mae rhaid i'r Cyngor eu cyflawni. Ychwanegodd yr Arweinydd na allai'r Cyngor fod yn hunanfodlon os yw e am barhau i roi newidiadau ar waith ar gyfer trigolion a chymunedau yn y dyfodol.

Cyllideb

Rhoddodd yr Arweinydd sicrwydd i'r Aelodau fod y Gyllideb yn dal i fod yn brif flaenoriaeth i'r Cyngor, a'i fod yn adlewyrchu bod y Cyngor yn dal i fod â mesurau llym. Dywedodd am yr arbedion effeithlonrwydd o £6 miliwn dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ychwanegu ei fod yn ceisio osgoi trosglwyddo'r toriadau gwaethaf i'r gwasanaeth rheng flaen a'r preswylwyr. Aeth yr Arweinydd ymlaen i drafod y sefyllfa o ran Treth y Cyngor gan ychwanegu bod Rhondda Cynon Taf yn is na chyfartaledd Cymru ac yn y 6^{ed} safle o'r gwaelod yng Nghymru yn seiliedig ar gyfartaledd fesul annedd.

Addysg ac Ysgolion

Hysbyswyd yr Aelodau fod £8 miliwn wedi'i fuddsoddi ar draws ysgolion Rhondda Cynon Taf dros y flwyddyn ddiwethaf, ac ychwanegodd yr Arweinydd nad oedd cyllideb yr ysgolion wedi cael ei thorri ar ôl y mesurau anodd, er iddo nodi nad oedd yr arian a ddarparwyd i ysgolion yn bodloni'r gofynion cynyddol a roddwyd ar ysgolion. Aeth yr Arweinydd ymlaen i roi gwybod am y

buddsoddiad a ddygwyd ymlaen trwy brosiectau Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r buddsoddiad o £3.5 miliwn ar draws 6 ysgol trwy Grant Cyfalaf Blynnyddoedd Cynnar yr Iaith Gymraeg. Cyfeiriodd at y buddsoddiad a ddygwyd ymlaen ar draws 3 ysgol er mwyn lleihau maint dosbarthiadau a'r buddsoddiad o £995,000 ar gyfer yr estyniad newydd i Ysgol Ffynnon Taf trwy gyllid Arddoll Seilwaith Cymunedol a Chyfalaf.

Aeth yr Arweinydd ymlaen i roi gwybod am yr Achos Busnes strategol gwerth £168 miliwn a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau Band B. Cyfeiriodd hefyd at y Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol a gaiff ei gynnig i bum ysgol ledled y Fwrdeistref Sirol a'r manteision a gafodd y disgyblion a'r teuluoedd o ganlyniad i hyn.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cynnydd arfaethedig o £2 miliwn ar gyfer 2018/19 a gwnaeth sylwadau ar y lobiö a ddygwyd ymlaen i Lywodraeth Cymru am ragor o gyllid. Daeth yr Arweinydd â'i ddiweddariad ar gyfer y maes yma i ben trwy roi sylwadau ar y canlyniadau a gyflawnwyd ar draws yr Awdurdod, gan dynnu sylw at y ffaith bod cwmp bach mewn perfformiad wedi'i weld ar draws y cyfnodau allweddol. Esboniodd y gallai nifer o ffactorau gan gynnwys newid yn y cwricwlwm a newidiadau yn y disgwyliadau ar gyfer canlyniadau fod wedi arwain at y gostyngiad yma, er iddo ychwanegu fod y cyflawniad yn bwrw'r targed.

Priffyrdd a Phrosiectau Strategol

Atgoffodd yr Arweinydd yr Aelodau fod y Cabinet wedi cymeradwyo cynllun gwella priffyrdd 3 blynedd - gwerth £23.5 miliwn yn ddiweddar, gan ddweud bod ffyrdd gwell ar draws y Fwrdeistref Sirol yn golygu llai o hawliadau yn erbyn y Cyngor. Dywedodd wrth yr Aelodau fod canran y ffyrdd dosbarthedig yn y categori cyflwr coch wedi gostwng o 7.2% i 4.8% yn gyffredinol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd buddsoddiadau mewn priffyrdd. Aeth yr Arweinydd ymlaen i roi gwybod am y buddsoddiad i'r ffyrdd a'r llwybrau troed, yn ogystal â'r gwelliant a wnaed i strwythurau ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan roi gwybod am y £6.007 miliwn sy'n cael ei wario ar gynlluniau yng Nghwm Rhondda. Mae hyn yn cynnwys gwario £1.5 miliwn ar Bont Pontrhondda a £682,000 i atgyweirio Wal Afon Ffordd Pontypridd.

Aeth yr Arweinydd ymlaen i amlinellu'r cynlluniau mawr a gafodd eu cyflawni, fel cyffordd Beddau Halt ac ailfodelu'r cynllun yng Nghanol Tref Tonypany. Cafodd arian ei fuddsoddi yn y cyfleusterau Parcio a Theithio wrth baratoi ar gyfer Metro De Cymru. Ymhlith y prosiectau mawr eraill a ddygwyd ymlaen yn ystod y flwyddyn roedd Ffordd Gyswllt ar draws y Cwm yn Aberpennar, Ffordd Ddeuol yr A4119, Ffordd Osgoi Llanharan, a oedd yn ymrwymadau craidd yn y manifestö, yn ogystal â Ffordd Osgoi Aberdâr a Ffordd Gyswllt Treorci-Gelli. Cafodd £1 miliwn a £200,000 ei ddyrannu yn y drefn honno i gefnogi gwaith ymchwilio, gyda'r Arweinydd yn cyfeirio at opsiynau posibl y gellid eu datblygu.

Canol Trefi

Soniodd yr Arweinydd am yr ymrwymiad parhaus i gefnogi Canol Trefi ledled y Fwrdeistref Sirol yn dilyn mesurau megis y meysydd parcio am ddim/ffioedd llai a gyflwynwyd y llynedd. Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau am y Grant Cynnal a Chadw Canol Trefi, a ymestynnwyd i Dreorci, ac sydd hefyd wedi wynebu cyfnod peilot llwyddiannus yn Nhonypandy ac Aberpennar, gyda 97 o geisiadau wedi'u derbyn o'r 3 Canol Tref. Cadarnhaodd y byddai'r cynllun yn cael ei ymestyn ymhellach i Aberdâr, y Porth a Glynrhedynog dros y flwyddyn nesaf.

Cafodd arian ei ddiogelu gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella Llyfrgell Tonypandy a dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn gweithio gydag Avant Cymru a'r Siambr Fasnach ar gyflwyno digwyddiad Festy Porth. Dywedodd hefyd fod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Siambr Fasnach i ddatblygu cynllun gweithredu i hwyluso gwario arian Adran 106 Aldi (£30,000).

Ar wahân i Ganol Trefi, soniodd yr Arweinydd am arian yr UE a sicrhawyd i ddatblygu unedau busnes modern yn Nhresalem a Choed-elái, gan ychwanegu at yr ymrwymiad i barhau i wneud Rhondda Cynon Taf yn lleoliad deniadol i weithwyr a busnesau. Cyfeiriodd hefyd at swyddi sydd wedi'u diogelu gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau yn Nhrefforest, ynghyd ag Awdurdod Refeniw Cymru.

Hamdden ac Ardaloedd Chwarae.

Ategodd yr Arweinydd sylwadau'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau'r Amgylchedd, Hamdden a Threftadaeth gan gyfeirio at y buddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau hamdden dan do ac awyr agored dros y flwyddyn ddiwethaf. Aeth yr Arweinydd ymlaen i drafod y buddsoddiadau, gan restru'r adnewyddiadau yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant a'r ystafelloedd newid mewn nifer o byllau nofio ar draws y Fwrdeistref Sirol. Dywedodd fod Canolfan Chwaraeon Rhondda Fach yn parhau i gael ei datblygu, gyda 2 gae 3G dan do eisoes wedi'u gosod.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at gyfarfod diweddar a gafodd e gyda sefydliad Chwaraeon Cymru, a oedd yn canmol gwaith y Cyngor a'r buddsoddiad ar draws yr ardal, a gwnaeth e sylwadau am y cyfleusterau 3G a agorwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol a'r gwaith parhaus sy'n mynd rhagddo er mwyn cyflawni rhagor yn y maes yma.

Ar gyfer ardaloedd chwarae, cafodd yr Aelodau wybod fod disgwyl i 27 o brosiectau gael eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2019. Ychwanegodd e fod 95 o ardaloedd chwarae (45% o'r stoc gyfredol) wedi cael budd o fuddsoddiad o fwy na £3.2 miliwn ers dechrau'r rhaglen yn 2015.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cynnydd da sy'n mynd rhagddo o ran darparu cyfleuster Gofal Ychwanegol Maes-y-Ffynnon, a gwnaeth e sylwadau cadarnhaol am y gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref, sydd wedi ennill gwobrau. Nododd e fod gwasanaethau o'r fath yn parhau i lwyddo i helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain a gadael yr ysbyty cyn gynted â phosibl. Ychwanegodd e fod y gwasanaeth yma yn hanfodol er mwyn lleihau'r baich ar y gwasanaethau ieched, yn arbennig dros y gaeaf. Dywedodd yr Arweinydd fod 334 o atgyfeiriadau wedi'u cefnogi drwy'r gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref ers mis Hydref diwethaf, a bod 1,408 o becynnau gofal cartref i oedolion wedi'u darparu - cyfanswm o 16,643 awr yr wythnos.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod i'r aelodau am y gwaith o ddarparu'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl, a'r cynllun Gofal a Thrwisio. Mae'r grant 'galluogi' wedi helpu mwy na 790 o bobl ers 2017.

Achubodd yr Arweinydd ar y cyfle i drafod y gwasanaeth teuluoedd cydnerth. Mae 1027 o deuluoedd wedi'u cyfeirio at y gwasanaeth ers mis Ionawr 2018 (35% yn fwy na'r disgwyl). Yn ogystal â hynny, cyfeiriodd e at y Canolfannau yn y Gymuned, a'r gwaith cadarnhaol a'r buddsoddiadau sy'n ymwneud â'r safleoedd yma.

Cyfleoedd am Swyddi yn y Cyngor

Dywedodd yr Arweinydd wrth yr Aelodau fod y Cyngor wedi recriwtio 186 o brentisiaid drwy raglen brentisiaethau lwyddiannus y Cyngor ers mis Medi 2012. Aeth 100% o'r prentisiaid yma ymlaen i gyflawni'r fframwaith cymwysterau, a llwyddodd 92% ohonyn nhw i gael swyddi parhaol. Cafodd 13 o raddedigion eu recriwtio yn 2018, gan ragori ar y 9 unigolyn a gafodd eu recriwtio yn y flwyddyn flaenorol. Cafodd yr Aelodau wybod fod mwy na 1000 o bobl wedi mynd i'r ddwy ffair yrfaoedd a gafodd eu cynnal gan y Cyngor, ac roedd mwy na 70 o weithwyr yn bresennol yno hefyd.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y gwaith sydd wedi mynd rhagddo mewn perthynas â'r lluoedd arfog a chydraddoldebau, gan nodi bod y Cyngor ymhlith 100 o gyflogwyr gorau Stonewall. Ychwanegodd e mai Cyngor Rhondda Cynon Taf yw'r unig gyngor yng Nghymru sydd wedi derbyn Gwobr Aur y Lluoedd Arfog o hyd.

Daeth yr Arweinydd â'i drosolwg i ben drwy ychwanegu y byddai'r Cyngor yn parhau i fod yn uchelgeisiol wrth gyflawni ei brif amcanion a'i ymrwymadau dros y flwyddyn nesaf.

Ymatebodd yr Arweinydd nifer o gwestiynau/sylwadau gan yr Aelodau fel:-

- Croesawodd yr Aelodau'r buddsoddiadau gochelgar a chyfeiriad y Cyngor, gan gyfeirio at y toriadau y mae cynghorau eraill yn eu gwneud oherwydd cyni cyllidol.
- Y ddarpariaeth o adnoddau addysgu digonol mewn ysgolion newydd yn y dyfodol - cyfeiriodd yr Arweinydd at y £2 filiwn ychwanegol a ddarparwyd i ysgolion a soniodd am y gwaith a gafodd ei gyflawni gydag Undebau Llafur mewn perthynas

â staff a diswyddiadau.

- Materion Staffio - Croesawyd yr Adolygiad o Strwythur Uwch Reolwyr y Cyngor/y Bwlch Cyflog rhwng Dynion a Merched
- Ymgynghori â'r Cyhoedd ynglŷn â'r ddadl - Darlledu cyfarfodydd Pwyllgorau ar y we
- Mynediad i Gwm Rhondda gan gynnwys lonydd beicio a Thwnnel Cwm Rhondda - Cyfeiriodd yr Arweinydd at y dewisiadau y mae modd bwrw ymlaen â nhw o ran mynediad a'r cais am gyllid a gafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cytunodd yr Arweinydd fod angen annog teithio llesol a bod angen cynnal proses ymgynghori â'r cyhoedd.
- Darpariaeth o ran Ysgolion Arbennig - Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cyllid sy'n cael ei fuddsoddi ym mhob ysgol o fewn y Fwrdeistref Sirol, a chytunodd i ysgrifennu at yr aelod yn rhoi manylion am y cynlluniau hirdymor ar gyfer yr ysgol dan sylw.
- Gwasanaethau'r Gymraeg a Diwylliant - Rhoddodd yr Arweinydd wybod i'r Aelodau am gais y Cyngor i gynnal yr Eisteddfod.
- Craffu - Cydweithio er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol
- Datblygu Canolfan Dyffryn Taf - Mae cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud.
- Datblygiadau preswyl - Cynigion am ysgolion newydd
- Treth y Cyngor - Caiff gwybodaeth gymharol am dreth y cyngor ei rannu â phob Aelod er gwybodaeth.

RHAGLEN WAITH Y CYNGOR

84 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol y newyddion diweddaraf i'r aelodau ynglŷn â Rhaglen Waith y Cyngor. Cafodd yr Aelodau wybod y caiff cyflwyniad gan Yr Awyrlu Brenhinol (RAF) ei gynnal yn ystod y cyfarfod ym mis Ionawr ac, yn dilyn cyhoeddiad yr Arweinydd ynglŷn â'r Adolygiad o Strwythur Uwch Reolwyr y Cyngor, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn y Flwyddyn Newydd. Yn ogystal â hynny, cafodd yr Aelodau wybod bod ychwanegiad i'r rhaglen yn cynnwys adroddiad mewn perthynas â Brexit yn ogystal â gwahoddiad i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor.

ADRODDIAD AR Y CYD Y CYFARWYDDWR MATERION CYFATHREBU A PHENNAETH DROS DRO'R GWASANAETHAU LLYWODRAETHOL A CHYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL.

CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR A DYRANNU RHYBUDDION O GYNIGION

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol yr Adroddiad i'r Aelodau, a oedd yn nodi manylion am gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn dilyn y cwmp yn nifer aelodau Plaid Cymru a'r Blaid Geidwadol, yn ogystal ag effaith hynny ar benodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. Mabwysiadu'r cynllun ar gyfer dyrannu seddi i'r gwahanol gyrff a grwpiau gwleidyddol y mae Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gymwys iddo, fel y manylir yn yr Atodiad i'r adroddiad yma.
2. Awdurdodi Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol i benodi i gyrff gwleidyddol cytbwys, ar ôl iddo gael ei dderbyn hysbysiad o ddymuniadau pwnc y grŵp gwleidyddol, mewn unrhyw achos o dderbyn ceisiadau dilynol ar gyfer newid i aelodaeth y Pwyllgorau yn cael ei gyfeirio at y Cyngor;
3. Nodi nad yw Aelodau'r Cabinet yn gymwys i'w penodi i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu na Phwyllgorau Craffu;
4. Nodi y gall o leiaf un Aelod o'r Cabinet eistedd ar y Pwyllgorau Archwilio a Gwasanaethau Llywodraethol, ond bod Arweinydd y Cyngor wedi'i eithrio o'r swyddi hyn.
5. Y bydd penodi Cadeiryddion y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc a'r Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad i'w dyrannu i Grŵp Plaid Cymru;
6. Bod yr Aelodau canlynol yn cael eu henwebu yn Gadeiryddion ar y Pwyllgorau Craffu isod:
 - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L.M. Adams - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
 - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen - Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifainc
 - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Williams - Pwyllgor Craffu Cyllid a Chyflawniad
 - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Yeo - Pwyllgor Craffu Iechyd a Lles
 - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. A. Bradwick - Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant
7. Bod yr Aelodau canlynol yn cael eu henwebu yn Is-gadeiryddion ar y

Pwyllgorau Craffu isod:

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Evans - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Rees-Owen - Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifainc
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Thomas - Pwyllgor Craffu Cyllid a Chyflawniad
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Holmes - Pwyllgor Craffu Iechyd a Lles
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol T. Williams - Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant

8. Bod dyraniad y Rhybuddion o Gynigion yn cael ei addasu i gyfleu'r canlynol:

- Y Blaid Lafur - 9 (1 yn llai)
- Plaid Cymru - 4 (1 yn llai)
- Y Blaid Geidwadol - 1 (1 yn llai)
- Y Gynghrair - 2 (dim newid)
- Anneilltuedig - 1 (dim newid)

ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL

86 ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN CYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS 2018-19

Yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys a Chod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol, mae Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen wedi rhoi Gwybodaeth i'r Aelodau ar y canlynol: -

- Gweithgaredd Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn ystod 6 mis cyntaf 2018-19; a
- Gwir Ddangosyddion Darbodus a Thrysorlys ar gyfer yr un cyfnod.

Ar ôl ystyried y mater, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo cynnwys yr Adroddiad

ADRODDIAD CYFARWYDDWR GWASANAETH – IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A'R GYMUNED

87 DEDDF GAMBLO 2005 - ADOLYGU DATGANIAD O EGWYDDORION (POLISI LLEOL) 2019-2021

Yn unol â'r gofynion statudol, cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned y Datganiad o

Egwyddorion diwygiedig i'r Aelodau, o dan ddarpariaethau Deddf Gamblo 2005 (h.y. y datganiad polisi lleol ar gyfer rheoli gweithgareddau gamblo o fewn ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf), ar gyfer 2019-2021.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r diwygiadau i'r polisi fel yr argymhellodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau'r Gymuned, ac a oedd wedi'u hystyried gan
 - y Pwyllgor Trwyddedu ar 11 Medi 2018
 - Y Cabinet ar 16 Hydref 2018.
2. Mabwysiadu'r Datganiad o Egwyddorion diwygiedig yn unol â'r gofynion statudol.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR MATERION CYFATHREBU A PHENNAETH DROS DRO'R GWASANAETHAU LLYWODRAETHOL

88 CEFNOGI GWAITH AELODAU – CYFLEUSTERAU FFÔN AC E-BOST A MYNEDIAD ELECTRONIG AT WYBODAETH.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol ei adroddiad i'r Aelodau, a oedd yn eu hysbysu nhw o'r penderfyniad a gafodd ei wneud yng nghyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Llywodraethol ar 12 Tachwedd 2018 ynglŷn ag argymhelliad yr IRP am gefnogi gwaith Aelodau, gan gyfeirio'n arbennig at ddarpariaeth teleffoni.

PENDERFYNWYD:

1. Cymeradwyo'r ffordd ymlaen sydd wedi'i chytuno, yn unol ag argymhellion y Pwyllgor y Gwasanaethau Llywodraethol, sydd wedi'u hamlinellu isod:
 - i. Rhoi 2 ddewis i'r Aelodau mewn perthynas â darparu teleffoni:
 - Opsiwn 1 - mae Aelodau etholedig yn gwneud eu trefniadau eu hunain, yn talu'r bil cysylltiedig ac yn derbyn taliad o £19.64 y mis fel cyfraniad tuag at gost teleffoni.
 - Opsiwn 2 - mae'r Cyngor yn darparu ffôn ac yn talu amdano (does dim angen i Aelodau etholedig dalu bil / derbyn taliad gan y Cyngor).
2. Rhoi'r trefniadau ar waith o 1 Ionawr 2019 a chaiff y gost flynyddol amcangyfrifedig ei hymgorffori yn nhrefniadau pennu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2019/20.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A RHENG FLAEN

89 PENODI AELOD ANNIBYNNOL WRTH GEFN I'R PWYLLGOR SAFONAU

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol wrth yr Aelodau am argymhellion y Panel Penodiadau Safonol yn dilyn y cyfweiliadau diweddar a gafodd eu cynnal gan y Panel ar gyfer Aelod Annibynnol Wrth Gefn i'r Pwyllgor Safonau.

PENDERFYNODD yr Aelodau i gymeradwyo argymhelliad y Panel Penodiadau i benodi Mr Colin M. Pallant fel Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o chwe blynedd gan gychwyn ar 29 Tachwedd 2018.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION CYFATHREBU A PHENNAETH DROS DRO'R GWASANAETHAU LLYWODRAETHOL

90 COFNODI PRESENOLDEB AELODAU

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol wrth yr Aelodau am y penderfyniad a ddygwyd ymlaen gan y Pwyllgor y Gwasanaethau Llywodraethol ar 12 Tachwedd, mewn perthynas â Chofnodi Presenoldeb Aelodau.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:-

1. Cymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor y Gwasanaethau Llywodraethol, sydd wedi'i hamlinellu isod:

i.Y caiff Presenoldeb Aelodau ei gofnodi gan ddefnyddio'r categorïau canlynol o ymddiheuriadau yn y dyfodol:

- a) **Dyletswyddau'r Cyngor** - h.y. mae'r Aelod mewn cyfarfod arall gyda'r Cyngor/yn cynrychioli'r Cyngor mewn achlysur penodol - h.y. cyflawni dyletswyddau'r Maer/Aelodau'r Cabinet.
- b) **Dyletswyddau Busnes** - h.y. Dyletswyddau Llywodraethwr Ysgol yr Awdurdod Addysg Lleol/dyletswyddau sydd ynghlwm â Chyngor Cymuned/Cyrff Allanol/Cyngor Iechyd Cymuned
- c) **Cyfrifoldebau Gofalu** - Gan gynnwys gofalu am bobl iau a hŷn/aelodau'r teulu.
- d) **Salwch**

e) **Ymrwymiadau Gwaith**

f) **Profedigaeth**

g) **Ymddiheuriad**

2. Bod Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol yn rhoi gwybod i'r holl aelodau o'r ffordd ymlaen sydd wedi'i chytuno ar gyfer pob cyfarfod yn y dyfodol, gan ystyried yr amser sydd ei angen i addasu'r system gofnodi presenoldeb gyfredol.
3. Bod Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol yn rhoi adborth i Bwyllgor Safonau'r Cyngor mewn perthynas â chofnodi Presenoldeb Aelodau.
4. Bod y ffordd arfaethedig ymlaen o ran cofnodi Presenoldeb Aelodau yn cael ei defnyddio nes y bydd system gofnodi presenoldeb Modern.Gov ar waith yn llawn.

91 RHYBUDD O GYNNIG

Ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau'r Cynghorwyr W. Lewis, G. Caple, G.W. Hughes, W. Lewis, L.M. Adams, D.R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Elliott, S. Evans, M. Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M.A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powderhill, S.M. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, R.W. Smith, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, R.K. Turner, M. Webber, D.H. Williams, T. Williams, C.J. Willis a R. Yeo yn unol â Rheolau Gweithredu'r Cyngor.

"Mae mwy na miliwn o bobl yn y DU yn cael eu heffeithio gan Niwed i'r Ymennydd (ABI) a bob 90 eiliad, caiff rhywun ei dderbyn i'r ysbyty gydag ABI, naill ai drwy anaf trawmatig neu gyflwr meddygol sy'n ymwneud â salwch.

Rydyn ni'n rhagweld bod hyn yn costio tua £15 biliwn y flwyddyn i'r economi. Serch hynny, dydy'r gwaith ymchwil a'r cymorth sydd ar gael ddim yn ddigonol. Mae hi'n hanfodol bod dioddefwyr yn cael mynediad at wasanaethau adsefydlu arbenigol cynnar, a hynny am eu bod nhw'n llai tebygol o ddychwelyd i'r gwaith a bod yn rhan weithgar o'r gymdeithas. Mae hyn yn cael effaith ar les emosiynol a chorfforol y dioddefwyr a'u cynhalwyr.

Mae plant o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd hefyd yn llawer mwy tebygol o gael ABI cyn iddyn nhw droi'n 5 oed. Dydy llawer o'r anafiadau yma ddim yn cael eu diagnosio ac maen nhw'n cael effaith sylweddol ar yr unigolyn am weddill ei oes.

Does dim canolfannau trawma ar raddfa fawr yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae angen i gleifion gael eu trosglwyddo i'r cyfleuster agosaf yn Lloegr. Yn aml, does dim ymgynghorwyr adsefydlu arbenigol yno chwaith.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

- Cefnogi'r Elusen Anafiadau i'r Ymennudd, Headway, a chefnogi ei ymgyrchoedd yn y dyfodol i godi ymwybyddiaeth o'r effeithiau niweidiol iawn y mae modd i achosion o ABl eu cael.
- Gofyn i Arweinydd y Cyngor Ysgrifennu at Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros lechyd a Phrif Weithredwr Bwrdd lechyd Prifysgol Cwm Taf er mwyn gwneud cais i sefydlu canolfan drawma ar raddfa fawr yn rhanbarth De Cymru.

MATER BRYD - ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

92 DEALL EFFAITH BOSIBL BREXIT, YN ARBENNIG BREXIT 'HEB FARGEN', AR Y CYNGOR

Gyda chytundeb y Maer, a oedd o'r farn bod adroddiad y Prif Weithredwr - 'Deall Effaith Bosibl Brexit, yn Arbennig Brexit 'Heb Fargen', ar y Cyngor' yn cael ei ystyried yn unol â darpariaeth adran 100(b)4(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel mater o frys, oherwydd amgylchiadau arbennig h.y. Sicrhau bod Aelodau'n ymwybodol o effaith bosibl Brexit, yn ei wahanol ffurfiau, er mwyn helpu i lywio penderfyniadau'r Cyngor yn y dyfodol.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr, ei adroddiad i'r Aelodau sy'n rhoi crynodeb o'r manylion am effaith bosibl Brexit ar y Cyngor a'i drigolion. Sicrhaodd y Prif Weithredwr yr Aelodau y bydd swyddogion y Cyngor yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, partneriaid a chyflenwyr a chontractwyr trydydd parti i sicrhau bod gan y Cyngor well dealltwriaeth o beryglon Brexit Heb Fargen a'r effaith ar wasanaethau'r Cyngor a chymunedau lleol.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.
2. Derbyn sesiynau briffio pellach i'r Cabinet, y Cyngor a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod y cyfnod hyd at 29 Mawrth 2019

(Wrth ystyried y mater yma **PENDERFYNWYD** parhau â'r cyfarfod yn unol â Rheol Gweithdrefn 8 y Cyngor er mwyn trafod gweddill yr eitemau ar yr agenda a pharhau â busnes y Cyngor.)

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05 pm

**Cllr S Powderhill
Cadeirydd.**